CYSTADLEUAETH NID YN FY ENW I 2021

‘Dylunio logo ar gyfer crys-T’

yn portreadu’r Ymgyrch Nid yn fy Enw i
ar ddiweddu Trais yn Erbyn Merched

Derbynnir dyluniad mewn unrhyw siâp, maint neu liw a fedrir ei atgynhyrchu. Medrir creu’r dyluniad gyda llaw neu’n ddigidol.

Meini prawf beirniadu

- Creadigrwydd a gwreiddioldeb
- Dehongliad ac eglurder o’r thema
- Ansawdd y dyluniad a lliw
- Hawdd i atgynhyrchu

Dyddiad cau: Dydd Gwener, 15 Hydref 2021

Cyflwyno ceisiadau

Post: FfCSyM-Cymru,19 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd CF11 9HA

E-bost: walesoffice@nfwi-wales.org.uk

Ceisiadau i gynnwys y manylion isod:-

Enw a manylion cyswllt y cystadleuydd; enw SyM; enw Ffederasiwn

Mae’r gystadleuaeth hon ar agor i aelodau dros Gymru, Lloegr a’r Ynysoedd.

CYSTADLEUAETH NID YN FY ENW I 2021

Enillwyr y gystadleuaeth

Cyflwynir tystysgrif i'r ennillydd a'r ddwy gystadleuydd ail-orau.

Cefndir yr Ymgyrch

Sefydlwyd yr ymgyrch Nid yn fy Enw i gan FfCSyM-Cymru a Joyce Watson AS yn 2012 i godi ymwybyddiaeth am Drais yn Erbyn Merched ac amlygu'r neges ni ddylid byth derbyn, anwybyddu nac esgusodi Trais yn Erbyn Merched. Trwy annog aelodau SyM i recriwtio llysgenhadon gwryw o'u cymunedau lleol, y nod yw herio agweddau ac ymddygiadau'r lleiafrif o ddynion sy'n cyflawni neu'n cydoddef Trais yn Erbyn Merched.

Mae Nid yn fy Enw i yn canolbwyntio ar yr 16 Diwrnod o Weithredu yn Erbyn Trais ar Sail Rhyw sy'n cymryd lle rhwng 25 Tachwedd (Diwrnod Rhuban Gwyn a Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn Erbyn Merched) a 10 Rhagfyr (Diwrnod Hawliau Dynol).

Mae'r rhuban gwyn yn symbol o wrthwynebiad dynion i Drais yn Erbyn Merched. Mae gwisgo rhuban gwyn yn addewid i 'beidio byth â chyflawni, esgusodi nac anwybyddu trais gan ddynion yn erbyn merched'.

Darganfyddwch fwy:-
https://www.thewi.org.uk/wi-in-wales/campaigns/no-more-violence-against-women?lang=cym
https://www.whiteribbon.org.uk

Gwybodaeth bellach

FfCSyM-Cymru
Rhif ffôn: 029 2022 1712
E-bost: walesoffice@nfwi-wales.org.uk